# Y CYNGOR, 31/07/08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)
**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, S W Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, K Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles W Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J W Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau), Dewi Rowlands (Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), Ann Owen (Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Economi ac Adfywio), Sharon Warnes (Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad - Datblygu), Dylan Griffiths (Rheolwr Cynllunio Strategol ac Ariannu), Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Eraill yn bresennol:** Heulyn Davies, Uwch Reolwr Materion Cymreig, Grŵp Post Brenhinol Cymru, Dave Wall, Rheolwr Cysylltiadau Allanol, Swyddfa'r Post Cyf, Alan Knowles, Cynghorydd Newid yn y Maes, Swyddfa'r Bost Cyf; Eifion Pritchard, Cadeirydd Golwg ar Bost Cymru a Keith Richards, Swyddog Gweithredol dros Gymru, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Sylvia Humphreys, Dewi Llewelyn, Ieuan Roberts, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Dyfed Edwards

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mehefin fel rhai cywir.

## 3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir a gadawsant y siambr yn ystod y trafodaethau ar yr eitemau hynny:-

Y Cynghorwyr S Churchman a Dewi Lewis yn yr eitem "Rhaglen Newid Rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf" oherwydd eu bod yn berchnogion Swyddfeydd Post yng Ngwynedd

Y Cynghorydd Linda Wyn Jones yn y rhybudd o gynnig ynglŷn â gwastraff swmpus oherwydd ei bod yn gyfarwyddwraig ar Gwmni Seren sy'n casglu gwastraff swmpus

## 4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Llongyfarchwyd Alun Ffred Jones AC a chyn Arweinydd y Cyngor hwn ar ei ddewis yn Weinidog Treftadaeth yng nghabinet Llywodraeth y Cynulliad.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Arwel Pierce ar golli ei fam yng nghyfraith yn ddiweddar.

Mynegwyd cydymdeimlad â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

## 5 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

(i) Adroddwyd, er gwybodaeth, y derbyniwyd, llythyr oddi wrth Gyngor West Lothian yn mynegi consyrn ynglŷn â'r cynnydd ym mhris tanwydd, ac yn gofyn i'r Cyngor alw ar Lywodraeth San Steffan i weithredu er mwyn lleddfu'r problemau.

Adroddwyd ymhellach, bod Bwrdd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf, wedi mynegi pryder ynglŷn â'r sefyllfa eisoes, ac wedi penderfynu ysgrifennu at y Canghellor i fynegi pryder ynglŷn â'r sefyllfa.

## 6 MATER BRYS

(i) Adroddwyd bod rhybudd o gynnig brys wedi ei dderbyn oddi wrth y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts ynglŷn â'r Gwasanaeth Ambiwlans, a bod y Cadeirydd wedi cytuno i'r mater gael ei ystyried gan y Cyngor. Fodd bynnag, fel canlyniad i gyfarfod rhwng y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts, y Gwasanaeth Ambiwlans, Aelod Cynulliad ac Aelod San Steffan, ar fore'r Cyngor, adroddwyd bod yr aelod yn dymuno tynnu ei gynnig yn ôl.

(ii) Cytunodd y Cadeirydd, dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ynglŷn â'r defnydd o'r Ddeddf Rheoli Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) oherwydd bod y mater wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar iawn, ar ôl i raglen y Cyngor gael ei chyhoeddi.

**7 RHAGLEN NEWID RHWYDWAITH SWYDDFA'R POST CYF MEWN PERTHYNAS Â GWYNEDD**

(a) Croesawyd i'r Cyngor, gan y Cadeirydd, gynrychiolwyr o Grwp Post Brenhinol Cymru, Swyddfa Post Cyf, Golwg ar Bost Cymru a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri

Cefndir

Oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi adnabod bod llai o bobl yn defnyddio canghennau'r Swyddfa Post, yn rhannol oherwydd bod gwasanaethau traddodiadol, gan gynnwys taliadau budd-daliadau a gwasanaethau eraill ar gael trwy ddulliau eraill, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu newid rhwydwaith Swyddfa Post Cyf er mwyn ei wneud yn gynaladwy.

Ym Mai 2007, cyhoeddwyd mesurau gan Lywodraeth y DU ar gyfer ail-strwythuro a moderneiddio'r rhwydwaith, a bellach mae Swyddfa Post Cyf, wedi llunio Rhaglen Newid Rhwydwaith sy'n golygu cau 2,500 o ganghennau trwy'r DU ac mewn rhai achosion cyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaethau trwy "Allymestyn" (Outreach).

Mae cynigion wedi eu darparu ar gyfer oddeutu 50 gwahanol ardal gan Swyddfa Post Cyf, ac mae'r cynigion ar gyfer y ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru gan gynnwys Gwynedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 29 Gorffennaf a 15 Medi 2008.

Bydd Golwg ar Bost Cymru, sef corff annibynnol sy'n cadw llygad ar wasanaethau post, yn gweithio gyda Swyddfa Post Cyf a chymunedau lleol i asesu'r cynigion er mwyn sicrhau canlyniad gorau ar gyfer cwsmeriaid y gwahanol ardaloedd.

(b) Cafwyd gair byr gan y Prif Weithredwr.

Adroddodd bod y Cyngor eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gasglu tystiolaeth, a bydd gweithgor yn edrych ar y cynigion yn ystod mis Awst er mwyn llunio ymateb ffurfiol i'w gyflwyno, er ystyriaeth y pwyllgor perthnasol ddechrau/canol Medi.

(c) Derbyniwyd cyflwyniadau gan y canlynol:-

(i) Heulyn Davies, Uwch Reolwr Materion Cymreig, Grŵp Post Brenhinol Cymru ar y Rhaglen Newid Rhwydwaith a Ffyrdd Newydd o ddarparu'r gwasanaethau trwy "Allymestyn"

(ii) Eifion Pritchard, Cadeirydd, Golwg ar Bost Cymru ar waith y corff annibynnol sy'n cadw llygad ar y gwasanaethau post ac yn gweithio gyda Swyddfa Post Cyf a chymunedau lleol i asesu'r cynigion.

(iii) Keith Richards o Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri ynglŷn â sefyllfa a safbwynt yr is-bostfeistri

Rhoddwyd pob cyfle i aelodau ofyn cwestiynau i'r cynrychiolwyr, a diolchwyd iddynt gan Gadeirydd y Cyngor am eu cyflwyniadau a'u hymatebion.

## 8 CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams:**

Derbyniwyd rhybudd o gwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ond eglurodd y cynghorydd ei fod wedi derbyn ateb boddhaol gan yr Arweinydd Portffolio i'w ymholiad ac nad oedd mwyach yn dymuno gofyn y cwestiwn.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

Pam mai Gwynedd yw'r ail Gyngor yng Nghymru sy'n defnyddio RIPA fwyaf?

Mae gan 20 o swyddogion Gwynedd yr awdurdod i weithredu'r ddeddf, ydy hyn yn rhesymol/hanfodol?

Oes cyfiawnhad i ddefnyddio Deddf sydd yn wreiddiol wedi ei ddefnyddio i frwydro troseddau difrifol a therfysgaeth, yn erbyn dinasyddion Gwynedd?

**Ateb gan y Cynghorydd John R Jones, Uwch Arweinydd Adnoddau**

Deddf Rheoli Pwerau Ymchwilio 2000 yw RIPA. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i sicrhau rheolaeth briodol pan yw awdurdodau cyhoeddus yn awdurdodi a chadw gwyliadwriaeth gudd. Mae yna i sicrhau fod unigolion preifat yn cael eu gwarchod rhag ymyrraeth anghyfiawn. Mae'n anghywir dweud ei bod wedi ei chyflwyno i frwydro troseddau difrifol neu derfysgaeth. Ei bwriad yw caniatáu i awdurdodau cyhoeddus, wrth ymgymryd â gwyliadwriaeth, wneud hynny mewn modd sy'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fe'i bwriadwyd fel gwarchodaeth i ddinasyddion.

Nid oes gan y Cyngor fynediad at wybodaeth am ymagwedd neu ddefnydd awdurdodau eraill o'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor wedi awdurdodi defnydd gwyliadwriaeth dan y Ddeddf ar gyfanswm o 133 achlysur yn y cyfnod o 30 mis rhwng 1 Ionawr 2006 a 23 Mehefin 2008.

'Roedd y mwyafrif llethol o awdurdodiadau yn ymwneud ag ymchwilio i honiadau o dwyll budd-dal, yn enwedig troseddau dan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 mewn perthynas â methiant i ddatgan partneriaid neu fethiant i ddatgan cyflogaeth. 'Roedd yr achlysuron eraill pan roddwyd awdurdod yn ymwneud ag ymchwiliadau i ymddygiad gwrthgymdeithasol a lladrad.

Mae yn un o ofynion y Cyngor fod raid i swyddog gael hyfforddiant ffurfiol cyn y gall awdurdodi gweithgaredd gwyliadwriaeth. Mae nifer o swyddogion ar lefel Rheolwyr ac uwch wedi derbyn yr hyfforddiant ond dim ond 5 sydd wedi gofyn am a chael yr hawl i awdurdodi'r gweithgaredd. Cedwir cofnod canolog o bob awdurdod, sy'n cynnwys rheswm pam ystyrir gwyliadwriaeth yn hanfodol. Mae archwilwyr allanol yn archwilio trefniadau'r Cyngor mewn perthynas â'r ddeddf o bryd i'w gilydd.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

Oes modd i aelodau etholedig a'r cyhoedd gael gwybod ar ba achlysuron y caiff ei ddefnyddio

**Ateb gan y Swyddog Monitro**

Bydd modd gwneud hynny o fewn cyfyngiadau Deddf Diogelu Data.

## 9 CYNLLUN TAIR BLYNEDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd, er cymeradwyaeth y Cyngor, fersiwn derfynol o'r Cynllun Tair Blynedd.

(i) Adroddwyd bod y Cynllun Tair Blynedd yn ceisio cynnig ffocws clir a chydlynol i waith y Cyngor. Mae'n sefydlu gorwel cynllunio tymor hwy i gynlluniau'r Cyngor gan "dorri i mewn" am y tro cyntaf i'r cylch cynllunio blynyddol, ac yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau, sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r sir a'i phobl ac yn cynnig ffocws ar gyflawni ac edrych ymlaen hyd yn oed ar adeg gyllidol anodd.

(ii) Cymeradwywyd drafft o'r Cynllun i bwrpas ymgynghori yng nghyfarfod y Cyngor ddiwedd Chwefror 2008 a rhoddwyd sylw manwl i'r prif sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori.

(iii) Cynhwyswyd £300,000 o refeniw parhaol yn Strategaeth Ariannol 2008/09 ar gyfer ariannu unrhyw ymrwymiadau a gyfyd o'r Cynllun, a bydd y Tîm Rheoli'n parhau i herio a gwirio defnydd arfaethedig o'r arian gan adrodd i Fwrdd y Cyngor ar argymhellion cyn rhyddhau unrhyw adnoddau.

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am gynnal sesiynau ar y Cynllun Tai Mlynedd ac am ddarparu cyfle i aelodau newydd fod yn rhan o'r Cynllun.

Tra'n cytuno bod llawer i'w groesawu yn y Cynllun, roedd aelod o'r farn nad oedd yn ddigon uchelgeisiol, nad oedd yn ddigon heriol, ac nad oedd yn rhoddi sylw digonol i faterion gwledig. Roedd amryw'n dymuno gohirio penderfyniad er mwyn rhoddi cyfle i aelodau newydd gael mwy o fewnbwn i'r Cynllun.

Pwysleisiwyd bod y Cynllun yn berthnasol i Wynedd gyfan - i ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, a'i fod yn ddogfen fyw. Eglurwyd y bydd cyfleoedd i adolygu, gwella ac addasu'r Cynllun yn gyson, ac anogwyd aelodau i'w gymeradwyo.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i " *ohirio penderfyniad er mwyn caniatáu i aelodau newydd gael mewnbwn i'r cynllun Tair Mlynedd"*

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid (17)**

Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Peter Read, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn (46)**

Y Cynghorwyr: Bob Anderson, S W Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, K Greenly-Jones,

Gwen Griffith, Margaret Griffith, Siân Gwenllian, Huw Price Hughes, Anne Lloyd Jones, Charles W Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, June Marshall, Keith Marshall, J W Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ann Williams, J.W.Williams ac R H Wyn Williams.

**Atal (0)**

Roedd yr aelodau canlynol wedi gadael y siambr cyn i'r bleidlais gael ei chymryd:-
Y Cynghorwyr Trevor Edwards, O P Huws, Brian Jones a W Roy Owen

Datganodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

Pleidleisiwyd ar, a phasiwyd y cynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo fersiwn terfynol Cynllun Tair Mlynedd Cyngor Gwynedd**

**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Polisi a Pherfformiad I gwblhau man newidiadau cyn argraffu'r Cynllun.**

## 10 PENODI AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro,

Adroddwyd

(i) bod y Cyngor wedi ail-benodi dau aelod annibynnol a phenodi tri aelod etholedig o'r Cyngor i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar, a bod angen penodi 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' newydd.

(ii) bod y Panel Penodi wedi ystyried y cais yn erbyn y meini prawf perthnasol ac wedi argymell penodir ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Ashley Michael David Clay fel Aelod Pwyllgor Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am bedair blynedd, neu hyd at yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer cynghorau cymuned, pa gyfnod bynnag fo'r byrraf.**

## 11 POLISI TRETHIANT

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau ar fabwysiadu polisi trethiant am gyfnod o bedair blynedd.

(i) Adroddwyd bod angen polisi trethiant er mwyn gosod fframwaith ar gyfer cynllunio tymor canolig, ac i fod yn gymorth wrth gynllunio'n ariannol i'r tymor canolig. Dylai'r polisi adlewyrchu agwedd y Cyngor tuag at y pwyslais ar wario ar wasanaethau ar y naill law, a'r ffaith fod disgwyl i drethdalwyr dalu am y gwasanaethau hynny ar y llaw arall. Roedd angen ceisio taro balans rhwng gwariant a threthiant.

(ii) Cyfeiriwyd at bedwar opsiwn posibl, manylwyd ar fanteision ac anfanteision yr opsiynau hynny, ac eglurwyd bod y Bwrdd wedi argymell gosod polisi Treth Cyngor fyddai'n

cyfyngu cynnydd yn y Dreth Gyngor i fand fyddai'n gyfystyr i -1% i +1% y flwyddyn o'r cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru.

Mynegodd aelod gryn bryder ynglŷn â'r ffaith y bydd Cyngor Gwynedd, rhwng 2005/06 a 2010/11 wedi derbyn yr ail setliad isaf drwy Gymru gyfan, fydd gyfwerth â £6.6m i'r Cyngor. Nododd y dylid anfon dirprwyaeth drawsbleidiol i Gaerdydd er mwyn tynnu sylw'r Cynulliad i'r annhegwch sy'n bodoli mewn perthynas â setliadau cyson gwael ac i frwydro dros wasanaethau sylfaenol.

Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod y Cyngor yn pwyso'n drwm drwy amrywiol fforymau i geisio sicrhau tegwch i ardaloedd gwledig. Cyfeiriwyd at ymdrechion penodol gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau ac Arweinydd y Cyngor i geisio gwella'r sefyllfa, a chyfeiriwyd at amrywiol lwyddiannau'r Cyngor wrth lobio'r e.e. llwyddiant i gael Is-Bwyllgor Materion Gwledig y Cynulliad i gyflwyno adroddiad yn cefnogi rhoi mwy o sylw i faterion gwledig yn y fformiwla, ac oedi gweithredu fformiwla'r Athro Bramley. Nodwyd bod angen cyd-weithio a chynghorau eraill Cymru, a phwysleisiwyd y bydd y lobio grymus yn parhau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu polisi trethiant fyddai'n cyfyngu cynnydd yn y Dreth Cyngor dros gyfnod 4 blynedd y cyngor i fand fyddai'n gyfystyr I -1% -+1% y flwyddyn o'r cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru.**

## 12 RHYBUDDION O GYNNIG

(a)

(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Mae'r Cyngor Sir yn codi ar eu trethdalwyr ffi i fynd ymaith deunydd fel rhewgelloedd, matresi gwely ac eitemau swmpus eraill oddi wrth eu cartrefi, gwasanaeth oedd cynt am ddim ac yn rhan o'r dreth y Cyngor.**

**Drwy godi ar ein trethdalwyr, mae'n achosi i'r eitemau hyn gael ei gadael ar ochr y ffyrdd, neu mewn mannau anghysbell eraill yn ein hardaloedd, sydd yn creu llygredd ac yn ogystal yn rhoi argraff ddrwg i unrhyw ymwelydd a ddaw yn ystod ein tymhorau.**

**Hefyd, mae'n creu straen ariannol i'r rhai bregus yn ein cymdeithas fel yr henoed a'r rhai na all fforddio car er mwyn mynd a nhw i'r mannau cywir.**

**Felly rwy'n cynnig diddymu'r ffioedd a mynd yn ôl i'r hen drefn o weithredu sef fod 3 eitem yn flynyddol am ddim i drethdalwyr y Sir".**

(ii) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn amlygu'r prif ystyriaethau ac yn nodi manteision ac anfanteision y cynnig.

Yn fuan ym 2008 penderfynodd y Bwrdd newid y drefn o gasgliadau (cyntaf) am ddim, a ffi o £32.90 am bob casgliad a wneir yn ychwanegol i drefn newydd ar gyfer 2008/09, o godi £15 am bob casgliad hyd at 5 eitem mewn nifer. Roedd y drefn newydd y galluogi'r Cyngor i reoli'r defnydd o'r gwasanaeth a'r costau, yn gosod ffi fwy rhesymol ar gasgliadau ac yn cyfrannu swm amcangyfrifwyd o £50k o arbedion blynyddol i'r Cyngor.

Yn gydamserol, gofynnwyd i'r Pennaeth roddi ystyriaeth bellach i drefniadau ar gyfer cyfarch anghenion pobl oedrannus a bregus, gan adrodd mewn da bryd ar gyfer 2009/10 i'r pwyllgor craffu perthnasol neu weithgor o'r pwyllgor hwnnw.

Cafwyd trafodaeth lawn ar y cynnig, a chloriannwyd y manteision a'r anfanteision.

Nodwyd y byddai rhoddi gwasanaeth am ddim yn gam poblogaidd o ran y trigolion, y byddai'n diwallu'r angen i gyfarch anghenion trigolion bregus a byddai'n tawelu honiadau bod y drefn wedi arwain at waredu anghyfreithlon.

Roedd rhai aelodau'n daer o'r farn bod gwaredu anghyfreithlon yn broblem gynyddol ac yn gostus iawn i'r Cyngor

Fodd bynnag, eglurwyd bod y galw am gasgliadau wedi gostwng yn sylweddol, bod gwell defnydd o safleoedd mwynderau, a phwysleisiwyd na chofnodwyd cynnydd yn yr achosion o waredu anghyfreithlon. Nodwyd bod posibilrwydd na chyrhaeddir y targed incwm o £50k eleni.

Cytunwyd bod angen cyfarch anghenion trigolion bregus. Fodd bynnag roedd llawer o'r farn bod y drafodaeth yn gynamserol ar hyn o bryd oherwydd bod trefniadau ar y gweill i sefydlu trefn ymateb i geisiadau am gasgliadau swmpus fydd yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer adnabod a chadarnhau ceisiadau gan drigolion bregus. Nodwyd bod adroddiad i'r perwyl ym mynd gerbron Pwyllgor Craffu Amgylchedd ym Medi 2008.

Pwysleisiwyd yn gryf nad oedd adnoddau ar gael i ddarparu gwasanaeth am ddim, a phe benderfynir darparu gwasanaeth am ddim, byddai rhaid torri ar wasanaeth arall er mwyn darganfod yr arbedion angenrheidiol.

Nodwyd bod angen sicrhau bod safleoedd mwynderau wedi eu sefydlu ledled y sir, a bod angen sicrhau bod trigolion y sir yn gyfarwydd â threfniadau gwaredu gwastraff - gan gynnwys ail-gylchu.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid (19)**

Y Cynghorwyr: S Churchman, Anwen Davies, Jean Forsyth, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, J R Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Llinos Merks, Peter Read, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Gethin Glyn Williams, Owain Williams a Robert J Wright

**Yn erbyn (37)**

Y Cynghorwyr: E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Siân Gwenllian, Huw Price Hughes, Anne Lloyd Jones, Charles W Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie

Morgan Jones, John Wynn Jones, R L Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, J W Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, Arwel Pierce, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ann Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams ac R H Wyn Williams.

**Atal(1)**

Y Cynghorydd: Keith Marshall

(Roedd nifer o aelodau wedi gadael y cyfarfod ers y bleidlais gofrestredig flaenorol)

**PENDERFYNWYD peidio mabwysiadu'r cynnig.**

(B)

(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Gwilym Euron Roberts o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Fod y Cyngor hwn yn ysgrifennu at Mr Ieuan Wyn Jones, A.C., Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo awdurdodi grant "freight facilities" ar gyfer uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy a darparu terfynfa nwyddau amlfodd ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer pob cwmni fyddai'n bwriadu defnyddio'r rheilffordd ar gyfer nwyddau, cyn gynted ag sy'n bosib.**

**Byddai awdurdodi'r grant yn creu o leiaf 50 swyddi yn y Blaenau, datblygu a diogelu rheilffordd Dyffryn Conwy i'r dyfodol a helpu'r amgylchedd gan wneud cyfraniad sylweddol tuag at gynllun Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau fod 25% o agregau Cymru yn agregau eiliol drwy ddefnyddio gwastraff llechi a'i gludo ar y rheilffordd o'r Blaenau i'r byd.**

(i) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Economi ac Adfywio yn amlinellu cefndir y cynnig.

Eglurwyd y gall y cynllun ddod a manteision i gymuned Ffestiniog a'r ardal ehangach, drwy gynnig cyfleoedd a swyddi newydd, cynnal Rheilffordd Dyffryn Conwy yn llwybr trafnidiaeth hyfyw, a datblygu statws Blaenau Ffestiniog fel cyfnewidfa trafnidiaeth.

Nodwyd bod swyddogion ac aelodau wedi gweithio'n gyson i gynnal deialog gyda'r Cynulliad i gynnal sylw ar y posibilrwydd o wireddu'r cynllun gan sicrhau fod cyfiawnhad strategol y prosiect yn cael ei gynnwys yn nogfennau strategol. Nodwyd hefyd bod y cynllun wedi ei adnabod yn brosiect blaenoriaeth strategol gan y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Cydgyfeirio.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ychwanegu cymal i'r cynnig sef *"Bod y Cyngor hefyd yn ysgrifennu at y NDA a National Rail i'w hannog i fuddsoddi yn sylweddol i uwchraddio'r rheilffordd a phob cyffordd berthnasol er mwyn galluogi'r gwasanaeth niwclear i ddatgomisiynu Gorsaf Niwclear Trawsfynydd trwy ddefnyddio'r lein"*

Gyda chydsyniad y cynigydd a'r eilydd, cytunwyd i ychwanegu'r gwelliant canlynol i'r cynnig gwreiddiol.

Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig diwygiedig canlynol:--

**"Fod y Cyngor hwn yn ysgrifennu at Mr Ieuan Wyn Jones, A.C., Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo awdurdodi grant "freight facilities" ar gyfer uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy a darparu terfynfa nwyddau amlfodd ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer pob cwmni fyddai'n bwriadu defnyddio'r rheilffordd ar gyfer nwyddau, cyn gynted ag sy'n bosib.**

**Byddai awdurdodi'r grant yn creu o leiaf 50 swyddi yn y Blaenau, datblygu a diogelu rheilffordd Dyffryn Conwy i'r dyfodol a helpu'r amgylchedd gan wneud cyfraniad sylweddol tuag at gynllun Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau fod 25% o agregau Cymru yn agregau eiliol drwy ddefnyddio gwastraff llechi a'i gludo ar y rheilffordd o'r Blaenau i'r byd.**

**Bod y Cyngor hefyd yn ysgrifennu at y NDA a National Rail i'w hannog i fuddsoddi yn sylweddol i uwchraddio'r rheilffordd a phob cyffordd berthnasol er mwyn galluogi'r gwasanaeth niwclear i ddatgomisiynu Gorsaf Niwclear Trawsfynydd trwy ddefnyddio'r lein"**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig diwygiedig ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i weithredu ar y cynnig.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 p.m. a daeth i ben am 5:10 p.m.**